# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Mawrth 2002

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A ydyw'r Gweinidog yn fodlon fod darpariaeth digonol o weinyddesau sydd wedi eu hyfforddi i drin plant claf, ar gael i'r ysbytai yng Nghymru. (WAQ164) **W**

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r ystod o amseroedd aros ar gyfer triniaeth adfer i gleifion sy'n gaeth i gyffuriau o dan y gwahanol gynlluniau sydd ar gael. (WAQ16469)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a fydd cleifion sy'n gaeth i gyffuriau yn medru derbyn triniaeth adfer ar unwaith drwy gyfrwng y gwahanol gynlluniau sydd ar gael. (WAQ16470)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff roi'r newyddion diweddaraf ynghylch y ffioedd a delir i ddarparwyr cartrefi gofal annibynnol ar gyfer yr henoed. (WAQ16597) **TYNNWYD YN OL**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Arthritis. (WAQ16606)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa fuddsoddiad mewn gwasanaethau rhewmatoleg y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd ei angen os yw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn argymell ehangu cyffuriau gwrth-TNF. (WAQ16607)

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, beth yw'r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o'r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16609)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Sawl mast teledu amledd tra-uchel sydd yng Nghymru.

(WAQ16598) **R**

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn portffolio’r Amgylchedd, beth yw’r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o’r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16610)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y gefnogaeth mewn ysgolion i blant â dyslecsia. (WAQ16599) **TYNNWYD YN OL**

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn y portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes, beth yw’r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o’r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16611)

Gofyn i Weinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Mewn perthynas â’r cytundeb asiantaeth â’r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn ystod argyfwng clwy’r traed a’r genau, o dan Adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y cyngor a’r arweiniad gwleidyddol y darparodd i swyddogion pan oeddent yn mynegi safbwynt y Cynulliad i Lundain ond yn gweithredu fel asiantau i’r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. (WAQ16600)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn dilyn ei ymateb i WAQ16239 ynghylch y cynllun difa ataliol ar Ynys Môn, beth oedd cyfraniad ei swyddogion, oedd yn gweithredu fel asiantau i’r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, o ran trefniadau’r cynllun. (WAQ16596)

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn y portffolio Materion Gwledig, beth yw’r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o’r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16612)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**David Davies (Mynwy);** Pa ganran o grant bloc Cymru a wariwyd ar addysg bob blwyddyn ers dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ16602)

**David Davies (Mynwy);** Pa ganran o grant bloc Cymru a wariwyd ar y Gwasanaeth Iechyd bob blwyddyn ers dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ16601)

**David Davies (Mynwy);** Pa archwiliadau y mae'r Cynulliad yn eu cynnal mewn Awdurdodau Lleol, a beth yw manylion costau yr archwiliadau hynny. (WAQ16608)

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn y portffolio Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, beth yw'r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o'r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16613)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd y taliad o £150,000 ar gyfer y gerddorfa siambr sydd wedi ei lleoli yn Abertawe yn dod yn rhan o Gyllideb Cyngor y Celfyddydau, neu a fydd y gerddorfa yn parhau i gael ei chyllido'n uniongyrchol gan y Cynulliad. (WAQ16603)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw'r gefnogaeth ar gyfer y gerddorfa siambr sydd wedi ei lleoli yn Abertawe yn rhan o'i Strategaeth Ddiwylliant. (WAQ16604)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a fydd y £150,000 a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gerddorfa siambr sydd wedi ei lleoli yn Abertawe yn cefnogi gwaith cerddorfeydd eraill yng Nghymru. (WAQ16605)

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn y portffolio Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, beth yw'r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o'r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16614)

Gofyn i weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**David Melding (Canol De Cymru);** Mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus o fewn y portffolio Datblygu Economaidd, beth yw'r polisi ynghylch:

i) Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg a benodir i gyrff cyhoeddus; a
ii) Dynodi aelod o'r bwrdd i fod yn gyfrifol am sicrhau fod y corff cyhoeddus perthnasol yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ16615)